**<u>Grŵp Trawsbleidiol ar Rasio Ceffylau – Cofnodion – Cyfarfod Ch1 - 30 Mawrth 2022</u>**

<u>Yn bresennol</u>

Aelodau – Alun Davies AS (Llafur), Gareth Davies AS (Ceidwadwyr), James Evans AS (Ceidwadwyr), Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd, Plaid Cymru), Mike Hedges AS (Llafur), Joel James AS (Ceidwadwyr), Jack Sargeant AS (Llafur)

Staff Aelodau o'r Senedd – Mike Bryan (Samuel Kurtz), Carys Lewis (Llyr Gruffydd), Ryland Doyle

Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain (BHA) – Jack Barton (Swyddog Gweithredol Materion Cyhoeddus)

Arena Racing Company (ARC) – Phil Bell (Cyfarwyddwr Gweithredol caeau rasio Cas-gwent a Ffos Las)

Brwdd Lles Ceffylau (HWB) – Barry Johnson (Cadeirydd)

<u>Dechrau'r Cyfarfod</u>

Dechreuodd y cyfarfod am 12.02. Croesawodd Llyr Gruffydd AS bawb i ail gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. Yna amlinellodd Jack Barton (BHA) y cynllun ar gyfer y sesiwn gyda chyfarfod wedi'i rannu i gwmpasu'r prosiect 'Come Racing in Wales' a'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth les y Bwrdd Lles Ceffylau ar gyfer y diwydiant.

<u>Come Racing in Wales - Cyflwyniad gan Phil Bell</u>

Gwahoddodd Llyr Gruffydd AS i Phil Bell gyfrannu. Siaradodd am tua 15 munud gan roi cyflwyniad ar y prosiect 'Come Racing in Wales', a fydd, o'i greu, yn darparu brand ac aelod o staff pwrpasol ar gyfer hyrwyddo diwydiant Rasio Ceffylau Cymru ar wefan ac ar sianeli ar-lein. Prif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Sut y gall caeau rasio Cymru ddenu mwy o ymwelwyr a golwg ar gynnig profiadau twristiaeth unigryw
- Dathlu treftadaeth rasio yng Nghymru, a thynnu sylw at lwyddiannau ceffylau a hyfforddwyd yng Nghymru a gweithwyr proffesiynol y diwydiant yng Nghymru sy'n cyflawni'n uwch na'r disgwyl yn rheolaidd yn y diwydiant ehangach
- Denu'r to nesaf o gefnogwyr rasio trwy addysg, gwaith hyrwyddo ar sianeli digidol ac arloesedd o ran profiadau
- Amlinelliad o'r trefniadau ariannu a fyddai i gyflawni brand Come Racing in Wales, gan gynnwys cyfraniadau gan gaeau rasio Cymru ac, o bosibl, gyfraniad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod y byddai'r brand yn y pen draw yn hunangynhaliol ar sail cyfraniadau nawdd

<u>Cyflwyniadau</u>

Cyn y sesiwn holi ac ateb, gofynnodd Llyr Gruffydd AS i'r Aelodau gyflwyno eu hunain a gofynnodd am farn gychwynnol ar y prosiect Come Racing in Wales.

Dywedodd Llyr Gruffydd AS ei fod yn gefnogwr rasio a'i fod yn edrych ymlaen at ddiwrnod teulu Bangor ym mis Mai. Dywedodd y byddai'n hapus i gefnogi'r prosiect a chynorthwyo gydag unrhyw sylwadau at Lywodraeth Cymru.

Joel James AS – nododd ei fod wedi cwrdd â Phil Bell ar ymweliad ag iard Tim Vaughan yn ei etholaeth, a dywedodd fod ganddo ddiddordeb mawr mewn helpu'r fenter, yn enwedig gyda golwg ar sut y bydd yn effeithio'n gadarnhaol ar fusnesau yn ei etholaeth.

Gareth Davies AS – dywedodd ei fod yn gefnogwr brwd o rasio ar hyd ei oes a dywedodd ei fod yn daer dros hyrwyddo gwell cysylltiadau trafnidiaeth yng ngogledd Cymru i leoliadau megis Bangor Is-coed.

Jack Sargeant AS - cyflwynodd ei hun fel cefnogwr rasio sydd wedi bod i gae rasio Caer droeon fel un o ogledd Cymru. Dywedodd y byddai'n hapus i gefnogi'r fenter.

Alun Davies AS – cyflwynodd ei hun a dywedodd fod rasio ceffylau, yn ei farn ef, yn dipyn o gawr cwsg yng Nghymru, lle mae llawer yn mwynhau'r gamp. Dywedodd fod ganddo ddiddordeb yn y cynlluniau, a bod pwynt ehangach sy'n haeddu sylw ynglŷn â chyfraniad y diwydiant rasio at gynaliadwyedd gwledig.

Gyda hynny, bu'n rhaid i Joel James AS a Jack Sargeant AS adael y cyfarfod.

Sesiwn holi ac ateb

Gofynnodd Alun Davies AS ymhle y gallai ef ac eraill ar y grŵp, fel gwleidyddion, ychwanegu gwerth at y dadleuon o blaid brand 'Come Racing in Wales', a dywedodd fod angen inni nodi'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae. Ar gefn hynny, dywedodd Llyr Gruffydd AS y gallai Aelodau siarad mewn dadleuon a chyflwyno cwestiynau i helpu i osod y sylfaen ar gyfer dull Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido.

Mewn ymateb, dywedodd Phil Bell y byddai'n galw ar ei uwch-swyddogion yn ARC i gadarnhau pa gyllid sydd ar gael yn fewnol cyn i ni sefydlu ein cais i Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd Jack Barton y byddai'n ystyried sut y gallai aelodau'r grŵp ein cynorthwyo gyda chynrychiolaeth ac y byddai'n sicrhau bod unrhyw weithgarwch yn cael ei gydlynu.

Cododd Llyr Gruffydd AS y posibilrwydd o benwythnos/wythnos rasio Cymreig arbennig fel rhan o'r fenter newydd i hybu rasio Cymru.

Nododd Phil Bell fod gan Go Racing yn swydd Efrog ŵyl haf lle y cynhelir rasys ar bob un o'r 9 trac yn swydd Efrog dros 9 diwrnod. Dywedodd Jack Barton fod y BHA – sydd â rhywfaint o reolaeth dros yr amserlen rasys – fel arfer yn awyddus i gefnogi mentrau o'r fath, er enghraifft penwythnos 'Go North' a grëwyd yn ddiweddar.

Gadawodd Gareth Davies AS a Phil Bell y cyfarfod ar ddiwedd y rhan hon. Ymunodd Barry Johnson â'r cyfarfod. Ymunodd Mike Hedges AS a James Evans AS â'r cyfarfod tua 12:35 yn ystod cyflwyniad y Barry.

Bwrdd Lles Ceffylau - y wybodaeth ddiweddaraf gan Barry Johnson

Siaradodd Barry Johnson am tua 15 munud gan gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth y Bwrdd Lles Ceffylau, 'A life well-lived', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Prif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Cafodd rhai o argymhellion y strategaeth eu gohirio oherwydd y pandemig, ond mae'r prosiectau bellach yn magu cyflymder ers i arweinwyr prosiect gael eu penodi - er enghraifft y newid o rwystrau oren i rai gwyn
- Hon yw'r drydedd flwyddyn o strategaeth aml-flwydd ac mae trafodaethau eisoes yn cael eu cynnal ar ail gam posibl yn y strategaeth lles ceffylau rhwng 2024 a 2028
- Mae pedwar prif nod yn sail i'r strategaeth – sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i'n ceffylau, cydgyfrifoldeb am oes drwy well olrhain, parhau i wella diogelwch caeau rasio, a chynyddu a chynnal ymddiriedaeth mewn rasio a phrosesau'r diwydiant o ran lles ceffylau.
- Mae cyfathrebu yn rhan allweddol o'r strategaeth a'r ymdrechion i wella dealltwriaeth y cyhoedd o anafiadau a marwolaethau ceffylau, ac o ran dangos sut mae ceffylau rasio'n cael eu trin ym myd rasio (Wythnos Genedlaethol Ceffylau Rasio).

- Cynhaliwyd adolygiad o’r sector Ôl-ofal yn dilyn argymhelliad gan y Bwrdd Lles Ceffylau

Cyn y sesiwn holi ac ateb, gwnaeth Llyr Gruffydd AS groesawu James Evans AS a Mike Hedges AS i'r cyfarfod.

Sesiwn holi ac ateb

Diolchodd Alun Davies AS i Barry Johnson am y trosolwg a dywedodd fod natur gyfannol y gwaith wedi gwneud argraff arno. Gofynnodd sut y gellir gwarantu ansawdd bywyd ceffylau rasio ar yr iard hyfforddi bob dydd.

Ymatebodd Barry Johnson fod ceffyl sy’n cael ei hyfforddi yng ngofal hyfforddwr trwyddedig sy’n ddarostyngedig i reoliadau’r BHA o ran lles ceffylau, atal dopio, ac ati. Gall iardiau gael eu harolygu gan dîm arolygwyr BHA ar unrhyw adeg. Nododd hefyd y byddai'n wrthgynhyrchiol cam-drin ceffylau rasio neu adael iddynt fynd i gyflwr gwael os dymunir iddynt berfformio hyd eithaf eu gallu ar y cae rasio.

Gofynnodd Alun Davies AS hefyd beth y mae gweithwyr proffesiynol y diwydiant yn ei wneud i sicrhau bod ceffylau sy'n ymddeol o rasio yn cael yr ansawdd bywyd y maent yn ei haeddu.

Dywedodd Barry Johnson fod hyfforddwyr yn gweithio'n galed i ddod o hyd i gartrefi addas, a bod gan rai iardiau staff pwrpasol ar gyfer y dasg. Mae'n gwneud synnwyr busnes i ddod o hyd i gartrefi da yn gyflym ar gyfer ceffylau sy'n ymddeol gan fod hyfforddwyr am i berchnogion gael ceffylau rasio newydd. Yn gryno, yn ei brofiad ef, mae 99/100 o geffylau yn mynd i gartrefi da - diben yr adolygiad o Ôl-ofal yw ceisio atal profiad gwael i’r 1/100.

Gofynnodd Llyr Gruffydd AS am yr ymgynghoriad ar y system adnabod ceffylau y cyfeiriodd Barry Johnson ato’n fyr yn ystod ei gyflwyniad. Nododd Barry Johnson y byddai pasportau digidol ym myd rasio yn gam cadarnhaol wrth i rasio symud i fynd i'r afael â materion olrhain ceffylau yn y sector ôl-ofal. Rhannodd Jack Barton y ffaith mai proses Llywodraeth y DU yw’r ymgynghoriad ar system adnabod ceffylau ac y disgwylir i DEFRA ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf. Nododd hefyd fod manteision posibl i ddefnyddio pasportau digidol ar gyfer ceffylau o ran mynd i’r afael â materion yn ymwneud â symud ceffylau dros ffiniau ar ôl Brexit a lleihau’r gwaith papur sydd ei angen ar hyn o bryd.

Cafwyd diweddariad byr gan Jack Barton (BHA) ar amserlenni adolygiad presennol y BHA o’r defnydd o'r chwip mewn rasio ym Mhrydain - argymhelliad gan y Bwrdd Lles Ceffylau. Dywedodd y bydd argymhellion y Grŵp Llywio Chwipio yn cael eu rhyddhau ym mis Mehefin gyda'r bwriad o roi unrhyw newidiadau ar waith ym mis Tachwedd.

Cloi

Gofynnodd Llyr Gruffydd AS i Jack Barton (BHA) pryd y byddai cyfarfod nesaf y grŵp yn cael ei gynnal. Cadarnhawyd y byddai’n gyfarfod corfforol ym mis Mehefin a bod y manylion yn cael eu cadarnhau gyda Carys Lewis (ymchwilydd Llyr). Y gobaith yw y bydd rhai o’n jocis a’n hyfforddwyr yn dod i siarad â’r Aelodau am eu bywyd yn y diwydiant.

Diolchodd Llyr Gruffydd AS i bawb am ddod a daeth â’r cyfarfod i ben am 12.55.